

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol

Dyddiad:

4ydd Ebrill, 2024

Presennol

John Jones (Cadeirydd), Richard Parry (Bryncir), Huw Pritchard; Raymond Jones (Pentrefelin), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Enid Egginton (Garndolbenmaen), Richard Williams (Prenteg); Iddon Edwards, Jess Williams (Penmorfa), Stephen Churchman (Cynghorydd Cyngor Gwynedd)

Ymddiheuriadau

Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd), Gwilym Evans (Prenteg), Michael Jones, Clifford Williams (Garndolbenmaen), Sarah Jones (Pentrefelin), Edward Evans (Bryncir), Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa)

Datgan Buddiant

IE a JW (Eitem 11) - Bu iddynt adael yr ystafell wrth drafod yr eitem yma.

Penderfyniadau

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Penderfynwyd mabwysiadu a pheidio mabwysiadu rhai o'r penderfyniadau (Gweler cofnodion llawn)

Tendrau - Bu i IE a JW adael yr adeilad wrth i'r eitem yma gael ei drafod.

Adroddwyd fod 3 tendr wedi'i dderbyn. Agorwyd y tendrau gan y Cadeirydd. Cynigwyd bod y gwaith yn cael ei rannu rhwng y tri ymgeisydd. Clerc i drefnu Is-bwyllgor Mynwentydd/Llwybrau nos Iau, 11eg o Ebrill am 7yh i benderfynu pwy fydd yn gwneud pa waith.

Cyfarfod Blynyddol: Penderfynwyd cynnal y cyfarfod blynyddol ar y 9fed o Fai, 2024 yn Neuadd Garndolbenmaen am 7yh.

Cynllunio: Rhif Cais: C24/0146/36/AC

Lleoliad: Chwarel Bryncir, Llystyn Gwyn, Bryncir, LL51 9LX

Bwriad: Cais o dan Adran 73 ar gyfer diwygio amod rhif C092/0375/36/LL ar gyfer gosod offer paratoi concriid parod a dau seilo symudol ychwanegol. - Ymatebwyd gyda sylwad yn dweud dim gwrthwynebiad mewn egwyddor ond bod rhaid datrys y broblem gyda dŵr wast.